**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JJ/0323/23

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

SeneddClimate@senedd.cymru

21 Ebrill 2023

Annwyl Llŷr

Ysgrifennaf atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am Argymhelliad 30 o waith craffu'r Pwyllgor ar Gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023–24, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror. Mae'r argymhelliad hwn yn gysylltiedig â Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion i'r Pwyllgor ynghylch sut a phryd y bydd bwlch cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn derbyn sylw, gan gynnwys diweddariad ar y cynnydd wrth ddatrys y problem hanesyddol mewn perthynas ag atebolrwydd am bensiynau.

Fel y gwyddoch, rwyf eisoes wedi dweud fy mod yn bwriad cau'r bwlch cyllid yn barhaol – ac roedd hyn yn cynnwys rhoi sylw i atebolrwydd CNC am bensiynau. Rwyf wedi adolygu cyllidebau o fewn fy Mhrif Grŵp Gwariant, ar y cyd â chydweithwyr yn y Cabinet, gyda'r bwriad o roi sylw i fwlch cyllid CNC, gan sicrhau bod hyn yn cael cyn lleied o effaith ag y bo modd ar ymrwymiadau eraill y Rhaglen Lywodraethu a blaenoriaethau Gweinidogion.

O ganlyniad i'r gwaith ailbroffilio, mae'n bleser gennyf ddweud wrth y Pwyllgor fy mod wedi cytuno i roi cyllid ychwanegol i CNC gwerth £18.2 miliwn i'w dynnu i lawr yn 2023–24, yn ddarostyngedig i gynllun busnes wedi'i alinio â'r gweithgareddau maent wedi'u hamlinellu yn eu Cytundebau Lefel Gwasanaeth. Rwy'n bwriadu ffurfioli'r trefniadau hyn yn y gyllideb atodol gyntaf ym mis Mehefin, i sicrhau nad oes unrhyw ansicrwydd ynghylch lefel y cyllid y byddant yn ei derbyn yn 2023–24.

Fel rhan o gyllideb ddrafft 2024–25  rwy’n bwriadu cynnwys yr £18.2 miliwn yma yn nyraniad sylfaenol CNC. Mae angen cydnabod bod y cyd-destun cyllidol yn parhau’n heriol iawn a bydd yn amodol ar broses cyllideb 2024-25. Fy ngobaith yw y gallwn gyflawni hyn er mwyn datrys bwlch cyllid CNC yn ogystal â mynd i’r afael ag atebolrwydd pensiynau CNC, sy’n rhan o’r £18.2 miliwn.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change